

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau'r Dreth Gyngor  
(Darpariaethau Ychwanegol ar gyfer Diystyriadau Disgownt) (Diwygio)  
(Cymru) 2023**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol yn Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Darpariaethau Ychwanegol ar gyfer Diystyriadau Disgownt) (Diwygio) (Cymru) 2023. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Rebecca Evans AS  
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol  
16 Chwefror 2023**

## **RHAN 1**

### **1. Disgrifiad**

1.1 Mae Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Darpariaethau Ychwanegol ar gyfer Diystyriadau Disgownt) (Diwygio) (Cymru) 2023 ('y Rheoliadau') yn gwneud diwygiadau i sicrhau nad yw pobl o Wcráin sy'n symud ymlaen o fod yn preswyllo mewn llety o dan Gynllun Noddi Cartrefi i Wcráin, neu nad ydynt yn preswyllo gyda noddwr o dan y cynllun hwnnw yn cael eu diystyru at ddibenion disgownt.

### **2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

2.1 Dim

### **3. Y cefndir deddfwriaethol**

3.1 Mae adran 11 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ('Deddf 1992') yn gwneud darpariaeth i ddisgownt gael ei gymhwyso i swm y dreth gyngor sy'n daladwy sy'n hafal i'r ganran briodol pan fo dim ond un preswlydd mewn annedd neu pan fo dau breswlydd neu ragor a bo pob un ond un ohonynt i'w diystyru. Pan na fo preswlydd yn yr annedd neu pan fo un preswlydd neu ragor yn yr annedd a bo pob un ohonynt yn gymwys i gael eu diystyru at ddibenion disgownt, mae swm y dreth gyngor sy'n daladwy yn ddarostyngedig i ddisgownt sydd ddwywaith y ganran berthnasol. Mae'r ganran berthnasol wedi'i nodi yn adran 11(3) o Ddeddf 1992 ac yn 25%.

3.2 Mae Atodlen 1 i Ddeddf 1992 yn gwneud darpariaeth ar gyfer personau sydd i'w hanwybyddu at ddibenion cyfrifo hawlogaeth i ddisgownt y dreth gyngor. Mae paragraff 11 o Atodlen 1 yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru ragnodi rhagor o bersonau sydd i'w diystyru. Mae Rheoliadau 4 a 5 o Reoliadau'r Dreth Gyngor (Darpariaethau Ychwanegol ar gyfer Diystyriadau Disgownt) 1992 (OS 1992/552) ('Rheoliadau Diystyriadau Disgownt') yn rhagnodi dosbarthiadau ychwanegol o bersonau sydd i'w diystyru at ddiben cyfrifo hawlogaeth i ddisgownt y dreth gyngor yng Nghymru.

3.3 Roedd Rheoliad 2 o Reoliadau'r Dreth Gyngor (Diwygiadau sy'n Ymwneud â Diystyriadau Disgownt ac Anheddau Esempt) (Cymru) 2022 yn diwygio'r Rheoliadau Diystyriadau Disgownt i ragnodi personau sydd wedi cael eu noddi o dan y Cynllun Noddi Cartrefi i Wcráin fel dosbarth o bersonau i'w diystyru.

3.4 Mae Rheoliad 2 o'r Rheoliadau yn diwygio Dosbarth H o'r Rheoliadau Diystyriadau Disgownt i ddarparu nad yw'r diystyriad presennol ond yn gymwys pan fo person sydd wedi cael caniatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi o dan Gynllun Cartrefi i Wcráin Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn preswyllo gyda noddwr o dan y cynllun hwnnw.

3.5 Gwneir y Rheoliadau hyn yn dilyn y weithdrefn penderfyniad negyddol.

#### **4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

4.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau nad yw biliau treth gyngor yr aelwydydd sy'n noddï pobl o dan y Cynllun Cartrefi i Wcráin yn cael eu heffeithio gan y cynnig o gymorth i bobl sy'n ceisio noddfa o'r rhyfel yn Wcráin. Nid oedd bwriad polisi i roi budd i wladolion o Wcráin a oedd yn atebol i dalu'r dreth gyngor, ac eithrio sicrhau eu bod yn gymwys i ymgeisio am gymorth mewn perthynas â'r dreth gyngor o dan Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.

4.2 Cafodd y Rheoliadau Diystyriadau Disgownt eu diwygio yn 2022 fel bod person sydd wedi cael fisa o dan y Cynllun Noddi Cartrefi i Wcráin yn cael ei ddiystyru at ddibenion cyfrifo disgownt y dreth gyngor. Roedd hyn er mwyn diogelu disgownt oedolyn sengl y noddwr, pan fo hynny'n berthnasol, a'r disgownt o 50% yr oedd aelwyd sy'n noddï yn ei gael pan fo'r holl feddianwyr eisoes yn cael eu diystyru.

4.3 Mae'r ddeddfwriaeth wedi arwain at fudd anfwriadol i rai unigolion neu deuluoedd o Wcráin. Mae hyn oherwydd bod y diffiniad yn y ddeddfwriaeth yn ddibynnol ar statws mewnfudo'r person yn unig heb unrhyw ofyniad ei fod yn parhau i breswylïo gyda noddwr. Yr effaith yw y byddai hawl gan unrhyw un sydd wedi cael caniatâd i aros o dan y Cynllun Noddi Cartrefi i Wcráin, ac sydd bellach yn byw yn annibynnol, gael ei ddiystyru at ddiben disgownt. Lle mae un neu ragor o oedolion yn byw mewn eiddo gyda'r un statws mewnfudo, byddent yn derbyn gostyngiad o 50%.

4.4 Mae hyn yn creu anghysondeb gyda thrin gwladolion eraill Wcráin sydd wedi sicrhau eu fisa gan naill ai Cynllun Teuluoedd o Wcráin neu Gynllun Estyn Cyfnod Gwladolion o Wcráin. Yn yr un amgylchiadau, byddent yn agored i dalu cyfradd safonol y dreth gyngor ar eiddo, ond byddent yn gymwys i wneud cais am ddisgownt treth gyngor o dan Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor pe na baen nhw'n gallu talu. Mae'r un peth yn wir am bobl, gan gynnwys ffoaduriaid a cheiswyr lloches, o wledydd eraill.

4.5 Er mwyn sicrhau triniaeth deg a chyson â gwladolion eraill o Wcráin, bydd y gofyniad i breswylïo â noddwr yn golygu na fydd y gwladolion hynny o Wcráin a gafodd eu 'lletya' mewn cartref gwag neu ail gartref sy'n eiddo i noddwr (ond nad oeddent yn preswylïo â'r noddwr) bellach yn cael eu diystyru. Yn yr achosion hynny, y preswylïydd (y gwladolyn o Wcráin) oedd yn talu bil y dreth gyngor, a thrwy hynny yn cael y fantais anfwriadol. Byddant yn cael eu trin, bellach, yn yr un modd â'r gwladolion hynny o Wcráin a ddaeth i mewn i'r wlad o dan y Cynllun Cartrefi i Wcráin ac sydd, erbyn hyn, yn byw'n annibynnol, yn ogystal â'r rheini a ddaeth i mewn i'r wlad o dan gynlluniau eraill. Bydd hyn yn sicrhau triniaeth gyson mewn perthynas â ffoaduriaid o wledydd eraill. Eto, bydd disgownt treth gyngor o dan Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar gael os nad oeddent yn gallu talu.

- 4.6 Mae Rheoliad 2 yn diwygio'r Rheoliadau Diystiriadau Disgownt i gyflwyno gofyniad i breswyllo â noddwr er mwyn i'r disgownt sydd eisoes gan y noddwr fod yn ddiogel. Effaith hyn yw sicrhau nad yw pobl o Wcráin sydd naill ai wedi symud ymlaen o fod yn byw â noddwr neu nad oeddent yn preswyllo â noddwr o dan Gynllun Noddi Cartrefi i Wcráin yn parhau i gael eu diystyru at ddibenion disgownt mewn perthynas â'u hatebolrwydd personol am dalu'r dreth gyngor.

## **5. Ymgynghori**

- 5.1 Oherwydd bod y Rheoliadau yn gwneud diwygiadau technegol ac wedi'u drafftio i gywiro canlyniad anfwriadol y diwygiadau blaenorol ac i sicrhau triniaeth deg a chyson, ni chynhaliwyd ymgynghoriad polisi. Mae'r Rheoliadau wedi'u dosbarthu mewn drafft i ymarferwyr am wybodaeth a sylwadau. Mae'r sefyllfa bolisi'n sicrhau bod holl dalwyr treth gyngor Cymru yn cael eu trin yn gyfartal, waeth beth yw eu statws mewnfudo.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

6.1 Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn cyflwyno dau opsiwn gyda'r holl gostau a manteision wedi'u mesur yn seiliedig ar wybodaeth a data a oedd ar gael i Lywodraeth Cymru cyn cyhoeddi.

### Opsiwn 1: Busnes fel arfer

O dan yr opsiwn hwn, byddai unrhyw wladolion o Wcráin sydd wedi sicrhau fisa o dan Gynllun Nawdd Cartrefi i Wcráin yn parhau i gael eu diystyru at ddibenion cyfrifo gostyngiad treth gyngor tra'u bod yn aros yng Nghymru. Pan mai nhw oedd yn talu'r bil, byddant â hawl am ddisgownt o 50%.

### Opsiwn 2: Deddfu i sicrhau y byddai person sydd wedi sicrhau fisa o dan Gynllun Nawdd Cartrefi i Wcráin ond yn cael ei ddiystyru at ddibenion y dreth gyngor tra'i fod yn parhau i breswyllo gyda noddwr o dan y cynllun hwnnw

Bydd yr opsiwn hwn yn dileu'r anghydraddoldeb ariannol gyda mudwyr neu ffoaduriaid eraill y rhoddwyd hawl iddynt aros yn y Deyrnas Unedig ac sy'n atebol am y dreth gyngor.

## Costau a manteision

### Opsiwn 1: Busnes fel arfer

6.2 Dyma'r opsiwn sylfaenol ac o'r herwydd nid oes costau na manteision ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Mae perygl fodd bynnag y bydd mwy o achosion dros amser lle bydd unigolion neu deuluoedd sy'n byw gyda gwesteiwyr ar hyn o bryd o dan Gynllun Nawdd Cartrefi i Wcráin yn symud ymlaen ac yn elwa'n anfwriadol o ostyngiad i'w hatebolrwydd am y dreth gyngor.

### Opsiwn 2: Deddfu i sicrhau y byddai person sydd wedi sicrhau fisa o dan Gynllun Nawdd Cartrefi i Wcráin ond yn cael ei ddiystyru at ddibenion y dreth gyngor tra'i fod yn parhau i breswyllo gyda noddwr o dan y cynllun hwnnw

6.3 O dan yr opsiwn hwn, gallai swm refeniw treth gyngor a gesglir gan awdurdodau lleol yng Nghymru fod fymryn yn uwch nag o dan y senario sylfaenol. Er hynny, bydd teuluoedd sy'n dod yn agored i dalu treth gyngor lawn ond sy'n methu talu yn parhau i allu gwneud cais am y cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor. Pan fo'r gwladolyn o Wcráin yn byw ar ei ben ei hun, bydd yn parhau â'r hawl i hawlio'r disgownt person sengl. Mae disgwyl felly i'r effaith ar refeniw treth gyngor mewn unrhyw awdurdod lleol penodol fod yn niwtral. Ar y cyfan, does dim disgwyl i refeniw treth gyngor fod yn wahanol o'i gymharu â senario lle nad oedd unrhyw bobl yn cael eu lletya oherwydd y rhyfel yn Wcráin.

6.4 Mae nifer y cartrefi yng Nghymru sy'n lletya pobl o Wcráin fel rhan o'r cynllun oddeutu 1,250 ym mis Ionawr 2023, yn seiliedig ar nifer y noddwyr unigryw sydd wedi'u lleoli yng Nghymru. Does dim gwybodaeth ar gael ar hyn o bryd

am nifer gwladolion Wcráin sydd wedi symud ymlaen o lety o dan gynllun Cartrefi i Wcráin.

6.5 Mae'r opsiwn hwn yn sicrhau nad oes anghydraddoldebau ariannol wrth weithredu'r dreth gyngor i holl dalwyr y dreth gyngor, gan gynnwys ffoaduriaid neu geiswyr lloches, o wledydd eraill.

6.6 Opsiwn 2 yw'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio.

### **Asesu'r gystadleuaeth**

6.7 Does dim disgwyl i'r Rheoliadau effeithio ar lefelau cystadleuaeth yng Nghymru nac ar ba mor gystadleuol yw cwmnïau o Gymru.